OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2020 No. 1219

# Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 4) (Cymru) 2020

## RHAN 1

## Cyflwyniad, adolygu a dod i ben

### Enwi, cychwyn a dod i rym

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 4) (Cymru) 2020.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 9 Tachwedd 2020.

### Adolygu

**2.** Rhaid i Weinidogion Cymru adolygu'r angen am y cyfyngiadau a'r gofynion a osodir gan y Rheoliadau hyn, a pha un a yw'r cyfyngiadau a'r gofynion hynny yn gymesur â'r hyn y mae Gweinidogion Cymru yn ceisio ei gyflawni drwyddynt—

(a) erbyn 19 Tachwedd 2020;

(b) o leiaf unwaith yn y cyfnod o 20 Tachwedd 2020 i 3 Rhagfyr 2020;

(c) o leiaf unwaith yn y cyfnod o 4 Rhagfyr 2020 i 17 Rhagfyr 2020;

(d) o leiaf unwaith yn y cyfnod o 21 o ddiwrnodau sy'n dechrau â 18 Rhagfyr 2020;

(e) o leiaf unwaith ym mhob cyfnod dilynol o 21 o ddiwrnodau.

### Dod i ben

**3.**—(1) Daw'r Rheoliadau hyn i ben ar ddiwedd y dydd ar 19 Chwefror 2021.

(2) Nid yw'r rheoliad hwn yn effeithio ar ddilysrwydd unrhyw beth a wneir yn unol â'r Rheoliadau hyn cyn iddynt ddod i ben.